OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 522 (Cy. 63)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

# PENSIYNAU, CYMRU

# Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (sydd wedi ei nodi yn Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 (O.S. 1992/129)) ("y Cynllun") fel y mae'n cael effaith yng Nghymru.

Mae'r diwygiad yn darparu ar gyfer cyfraddau gwahanol o gyfraniadau pensiwn sy'n daladwy gan aelodau'r Cynllun sy'n cynyddu yn ôl swm y cyflog pensiynadwy y mae'r aelod yn ei dderbyn. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau yn y Tabl ym mharagraff 3 o Ran A1 o Atodlen 8 i'r Cynllun.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi gan y Gangen Tân a'r Lluoedd Arfog, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ neu drwy ffonio 0300 062 8221.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 522 (Cy. 63)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

# PENSIYNAU, CYMRU

## Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Mawrth 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *7 Mawrth 2014* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 26(1) o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

(**1**) 1947 p.41. Diddymwyd adran 26 gan adran 52 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21) ac Atodlen 2 iddi. Mae is-adrannau (1) i (5) o adran 26 yn parhau i gael effaith, o ran Cymru, at ddibenion y cynllun a sefydlwyd o dan yr adran honno fel "the Firemen's Pension Scheme" ac a nodir yng Ngorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 (O.S. 1992/129), yn rhinwedd erthygl 3 o Orchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/2918 (Cy.257)). Drwy erthygl 4 o'r offeryn hwnnw newidiwyd enw'r Cynllun i Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 26 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), trosglwyddwyd y swyddogaethau wedi hynny i Weinidogion Cymru.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2014.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2014.

**Diwygio Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992**

**2.** Mae Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992(**1**) (lle y mae Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) wedi ei nodi), fel y mae'n cael effaith yng Nghymru, wedi cael ei diwygio yn unol ag erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn.

**3.** Yn lle'r Tabl ym mharagraff 3 o Ran A1 o Atodlen 8 rhodder y Tabl canlynol—

| "*Pensionable Pay* | *Contribution rate from 1 April 2014* |
|---|---|
| Up to and including £15,000 | 11.0% |
| More than £15,000 and up to and including £21,000 | 12.2% |
| More than £21,000 and up to and including £30,000 | 14.2% |
| More than £30,000 and up to and including £40,000 | 14.7% |
| More than £40,000 and up to and including £50,000 | 15.2% |
| More than £50,000 and up to and including £60,000 | 15.5% |
| More than £60,000 and up to and including £100,000 | 16.0% |
| More than £100,000 and up to and including £120,000 | 16.5% |
| More than £120,000 | 17.0%." |

*Lesley Griffiths*

(**1**) O.S. 1992/129; diwygiwyd gan 1997/2309 a 2851, 1998/1010, 2001/3649 a 3691, 2004/1912 a 2918 (Cy.257), 2006/1672 (Cy.160), 2007/1074 (Cy.112), 2009/1226 (Cy.109), 2010/234 a 2012/974 (Cy.128), a 2013/736 (Cy.88).

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, un o Weinidogion Cymru

4 Mawrth 2014